Pecyn Cyhoeddus

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Llun, 3 Mehefin 2024**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Mercher, 5 Mehefin 2024. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Mercher, 12 Mehefin 2024 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ddydd Iau, 13 Mehefin 2024.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Euros Davies, Endaf Edwards, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Raymond Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Hugh Hughes a Gareth Lloyd.

(10.00am- 1.04pm)

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol ac Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 Materion Personol

i. Estynnwyd llongyfarchiadau i blant, pobl ifanc ac athrawon Ceredigion ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd ym Maldwyn, Powys.
ii. Estynnwyd llongyfarchiadau i Alaw Fflur Jones o Felinfach ar ddod yn drydydd yn y Fedal Ddrama ac i Heledd Haf Evans o Lwyndafydd ar ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i Rhiannon Taylor ar ennill gwobr Tiwtor Cymraeg y Flwyddyn.
iii. Estynnwyd llongyfarchiadau i Glwb Ffermwyr Ifanc Penparc ar ennill rali'r sir ac i Glwb Ffermwyr Ifanc Tregaron ar gynnal y digwyddiad llwyddiannus.
iv. Hefyd estynnwyd llongyfarchiadau i bawb a oedd ynghlwm wrth gynnal digwyddiad Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, sef 'Glaswellt a Thail Cynaliadwy' a gynhaliwyd yn ddiweddar ar fferm Prifysgol Aberystwyth, Trawsgoed.

3 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

i. Datganodd y Cynghorydd Alun Williams fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 12.
ii. Datganodd y Cynghorydd Matthew Vaux fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 13 a gadawodd y cyfarfod pan oedd y mater hwnnw'n cael ei drafod.
iii. Datganodd y Cynghorydd Rhodri Evans fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 17 parthed Cynghorau Tref a Chymuned.

4 **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 14 Mai 2024 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

5 **Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd: "Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ystyried symud ein llyfrgell o ganol a chalon y dref i'r Ganolfan Les. Helpiwch ni I rwystro'r cynnig hwn. Bydd Ymgynghoriad Cyhoeddus yn digwydd tua mis Mehefin ac mae'n bwysig i ni gyd ei lenwi."**

Nodwyd bod y ddeiseb uchod wedi dod i law ac y byddai'n cael ei thrin yn unol â'r canllawiau yn y Protocol Deisebau.

6 **Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Dim.

7 **Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**

Dim.

8 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Cytundeb Partneriaeth rhwng yr ALl a'r Ysgolion 2024-27 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

PENDERFYNIAD:

i. Cymeradwyo'r Cytundeb Partneriaeth rhwng yr ALl a'r Ysgolion ar gyfer 2024- 27.
ii. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

Er mwyn cael cymeradwyaeth Corff Llywodraethol bob ysgol o 1 Medi 2024 ymlaen.

9 **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch y cynnig i ddiwygio Cyfrwng Iaith y Dysgu Sylfaenol a derbyn disgyblion 3 mlwydd oed yn rhan amser yn Ysgol Gynradd Comins-coch**

PENDERFYNIAD:

1. Ystyried y gwrthwynebiadau a gafwyd a chymeradwyo'r adroddiad cryno drafft o wrthwynebiadau.
2. Cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y dysgu sylfaenol a derbyn disgyblion 3 mlwydd oed yn rhan amser yn Ysgol Gynradd Comins-coch yn unol â'r Hysbysiad Statudol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

Rhaid i'r cynnig gael penderfyniad terfynol o fewn 16 wythnos i'r cyfnod gwrthwynebu yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion - 011/2018.

10 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch y cynnig i ddiwygio Cyfrwng Iaith y Dysgu Sylfaenol a derbyn disgyblion 3 mlwydd oed yn rhan amser yn Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant

PENDERFYNIAD:

1. Ystyried y gwrthwynebiadau a gafwyd a chymeradwyo'r adroddiad cryno drafft o wrthwynebiadau.
2. Cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y dysgu sylfaenol a derbyn disgyblion 3 mlwydd oed yn rhan amser yn Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant yn unol â'r Hysbysiad Statudol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Rhaid i'r cynnig gael penderfyniad terfynol o fewn 16 wythnos i'r cyfnod gwrthwynebu yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion - 011/2018.

11 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch y cynnig i ddiwygio Cyfrwng Iaith y Dysgu Sylfaenol yn Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos

PENDERFYNIAD:

1. Ystyried y gwrthwynebiadau a gafwyd a chymeradwyo'r adroddiad cryno drafft o wrthwynebiadau.
2. Cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y dysgu sylfaenol yn Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos yn unol â'r Hysbysiad Statudol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Rhaid i'r cynnig gael penderfyniad terfynol o fewn 16 wythnos i'r cyfnod gwrthwynebu yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion - 011/2018.

12 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch y cynnig i ddiwygio Cyfrwng Iaith y Dysgu Sylfaenol yn Ysgol Gynradd Plascrug

PENDERFYNIAD:

1. Ystyried y gwrthwynebiadau a gafwyd a chymeradwyo'r adroddiad cryno drafft o wrthwynebiadau.
2. Cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y dysgu sylfaenol yn Ysgol Gynradd Plascrug yn unol â'r Hysbysiad Statudol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Rhaid i'r cynnig gael penderfyniad terfynol o fewn 16 wythnos i'r cyfnod gwrthwynebu yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion - 011/2018.

13 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch y cynnig i ddiwygio Cyfrwng Iaith y Dysgu Sylfaenol yn Ysgol Gynradd Cei Newydd

PENDERFYNIAD:
Cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio cyfrwng iaith y dysgu sylfaenol yn Ysgol Gynradd Cei Newydd yn unol â'r Hysbysiad Statudol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Rhaid i'r cynnig gael penderfyniad terfynol o fewn 16 wythnos i'r cyfnod gwrthwynebu yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion - 011/2018.

14 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion ynghylch Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol

PENDERFYNIAD:

Cadarnhau enwebu'r sawl a enwir yn yr adroddiad yn gynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol yr Ysgolion perthnasol.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

Enwebu cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol.

15 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Pobl a Threfniadaeth ynghylch Polisïau Newydd Adnoddau Dynol gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

- Cymeradwyo'r Polisi Absenoldeb a Chymorth Teuluol.
- Cymeradwyo'r Polisi Gweithio'n Hyblyg.
- Cymeradwyo' Polisi Atal a Rheoli Straen.
- Cymeradwyo'r diwygiadau i'r Polisi Gyrru yn y Gwaith – Fflyd y Cyngor.
- Cymeradwyo'r Polisi Gwyliau ac Absenoldeb.
- Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a chytuno i gynnwys yn y Polisi Gwyliau ac Absenoldebau fod gan Oedolion sy'n Gwirfoddoli gyda'r Cadetiaid yr hawl i gael hyd at bum diwrnod o wyliau blynyddol gyda thâl. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i wneud cais am Wobr Aur y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr (gwobr Arian wedi'i chyflawni ar hyn o bryd).

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

- Sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth newydd.
- Cefnogi recriwtio a chadw, iechyd a lles gweithwyr, ac effeithiolrwydd gweithredol.

16 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Mabwysiadu Llwybr Troed Lôn Ty Llwyd, Llanfarian

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo:

1. i osod Hysbysiadau Adran 228 Bwriad i Fabwysiadu ar y safle.
2. os na dderbynnir gwrthwynebiadau, bod y darn o Lôn Tŷ Llwyd, fel y nodir yn Atodiad A yn cael ei gynnal ar gost y cyhoedd a'i fabwysiadu gan y Cyngor.
3. i hysbysu'r cyhoedd bod y darn o Lôn Tŷ Llwyd, fel y nodir yn Atodiad A yn cael ei gynnal ar gost y cyhoedd a'i fabwysiadu gan y Cyngor.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*

I alluogi cynnal llwybr troed/ffordd ar gost cyhoeddus er budd y cyhoedd/y gymuned.

17 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cynllun Grant Cymunedol Ceredigion gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

i. Cymeradwyo'r Cynllun Grant Cymunedol wedi'i ddiweddaru sydd ynghlwm fel Atodiad 2.
ii. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, fodd bynnag, ni wnaeth y Cabinet gefnogi'r argymhelliad i gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn y cynllun.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Er mwyn diweddaru'r Cynllun Grant Cymunedol i sicrhau bod yr arbedion cyfalaf a chyllideb refeniw a gymeradwywyd fel rhan o'r cyllidebau ar gyfer 2024/25 yn cael eu cyflawni yn ymarferol.

18 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Adroddiad Blynyddol y Polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad 2023-2024 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Nodwyd yr adroddiad a'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

19 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet

Dim.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2024

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol